Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar Cylch Meithrin Henllan

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Martin Cray

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin /1 Gorffennaf 2010 (prynhawniau)

Rhif y Contract: T/109/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Henllan

Cyfeiriad: Ysgol Henllan
Heol Dinbych
Henllan
Sir Ddinbych

Cod Post: LL16 5AW

Ffôn: 01745 812959

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Samantha Jones

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:
Mae'r lleoliad meithrin cyfrwng Cymraeg hwn wedi ei sefydlu ers dros 40ain mlynedd ac fe'i cynhelir ar safle ysgol bentref Henllan, nid nepell o Ddinbych. Mae'n gwasanaethu ardal wledig agos iawn sydd yn cael ei hystyried yn un heb fod yn arbennig o ffyniannus, nac ychwaith o dan anfantais. Daw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol.

Mae'r lleoliad yn ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Dinbych. Mae hefyd wedi cofrestru aelodaeth gyda Mudiad Ysgolion Meithrin.

Darperir addysg ar gyfer plant o ddwy a hanner hyd at bedair oed am bedwar prynhawn yr wythnos. Allan o'r cyfanswm o 12 o blant sydd ar lyfrau'r lleoliad, mae chwech yn dair oed a chwech arall, sydd yn mynychu'r ysgol yn y boreau, wedi cyrraedd eu pedwerydd pen blwydd. O dan drefniadau'r bartneriaeth leol, mae tri o'r plant teirblwydd yn hawlio darpariaeth wedi ei hariannu.

Darperir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond adeg yr arolygiad nid oedd yr un plentyn felly ar y gofrestr.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndiroedd ieithyddol Saesneg. Adeg yr arolygiad nid oedd yr un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Cynhelir gweithgareddau yn neuadd Ysgol Henllan ynghyd ag ardal gaeedig tu allan. Ceir hefyd fynediad yn ôl y galw i weddill tiroedd yr ysgol.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd ac un cymhorthydd. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers llai na blwyddyn ac mae'n gweithio tuag at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 3. Mae'r cymhorthydd hefyd yn newydd iawn i'w chyfrifoldebau.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2009. Dyma'r arolygiad cyntaf ohono gan Estyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar brynhawniau'r 30ain Mehefin a'r 1af o Orffennaf 2010.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae rhai diffygion yn ansawdd a safonau y ddarpariaeth addysgol, ond mae tystiolaeth y gellir unioni'r rhain.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	3
Datblygiad mathemategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	amherthnasol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	3
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	2
Ansawdd yr addysgu	3
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr	2
Ansawdd y berthynas gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned	2
Y cyfraniad a wneir gan y lleoliad i les plant	3
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	2
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	amherthnasol

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn hapus ac wedi setlo i mewn yn dda. Maent yn barod i ddewis gweithgareddau yn ddiffwdan ac yn arddangos hyder cynyddol wrth eu gwaith.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos lefelau da o hunanreolaeth, yn barod i aros tro, ac mae eu hymddygiad yn gyffredinol dda. Mae'r plant i gyd yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac ymresymu gan staff.

Mae pob un o'r plant yn llwyddo i ganolbwyntio yn dda ac i ddyfalbarhau yn ystod gweithgareddau.

Dangosant annibyniaeth gynyddol o ran hylendid personol ac maent yn barod iawn i ofyn am gymorth os oes angen.

Mae pob un o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i amrywiaeth o brofiadau newydd, ac mae gan y rhai hynny sydd o gefndir ieithyddol Saesneg agweddau da iawn tuag at ddysgu'r Gymraeg.

Diffygion
Ceir ychydig o adegau pan mae rhai unigolion ddim yn ddigon ystyriol o eraill.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae'r nodweddion da yn natblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae pob plentyn yn mwynhau gwrando ar y gwahanol gyflwyniadau a gânt gan staff y lleoliad. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o brif ddigwyddiadau a chymeriadau eu hoff storïau.

Mae geirfa Gymraeg y rhan fwyaf o blant yn gwella'n raddol, ac ar y cyfan, deallant ac ymatebant yn dda i'r cyfarwyddiadau a roddir iddynt.

Mae pob plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac maent yn dechrau deall arwyddocâd y gair ysgrifenedig.

Mae llawer o'r plant yn gallu adnabod eu henwau eu hunain yn ysgrifenedig heb gymorth cliwiau darluniadol.

Maent yn mwynhau gwneud marciau, gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol fel ewyn siafio, glŵp, sialc a brwsys paent. Dangosant ddealltwriaeth gynyddol o rai o bwrpasau ysgrifennu megis, er enghraifft, paratoi llythyr ac amlen i'w phostio.

Diffygion
Nid yw medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o blant wedi eu datblygu'n ddigonol.

3.3 Datblygiad mathemategol

.

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad mathemategol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob plentyn yn cael pleser mawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyfrif y nifer pysgod maent wedi dal, yr hwyaid sydd yn y dŵr a'r nifer gwrthrychau sydd yn guddiedig yn y tywod. Gallant ddidoli'n gywir anifeiliaid fferm a gwahanol barau o sanau cyn eu hongian ar lein ddillad.

Mae bron pob plentyn yn adnabod siapiau dau-ddimensiwn cyffredin megis sgwâr, cylch, triongl a phetryal, ac yn mwynhau gweithgareddau yn ymwneud â'u cyfatebu'n gywir.

Mae'r plant i gyd yn datblygu eu dealltwriaeth o gynhwysedd a mas yn effeithiol wrth chwarae gyda thywod a dŵr. Defnyddiant amrywiol gynwysyddion i ddysgu termau mathemategol.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.4 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae gan blant wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r byd ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae medrau ymchwiliol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda wrth iddynt geisio canfod y ffordd orau o symud pysgod y môr ar hyd cafn dŵr ac fe ddaw rhai i sylweddoli'n fuan effaith y llethr ar rediad y dŵr. Maent hefyd yn dangos chwilfrydedd naturiol wrth ddefnyddio'u chwyddwydrau i arsylwi ar gasgliad o gregyn môr.

Mae gan yr holl blant werthfawrogiad datblygol o bwysigrwydd yr amgylchedd ac maent wedi dysgu'r angen i ailgylchu gwastraff y lleoliad.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth gadarn o'r tymhorau a'u nodweddion. Gwyddant, er enghraifft, am rai o arwyddion bywyd newydd y gwanwyn ac maent wedi dysgu am gylch bywyd y pili pala a'r broga.

Mae'r plant i gyd yn adnabod swyddogaethau rhai pobl sy'n gwasanaethu'r gymuned, er enghraifft y postmon, milfeddyg ac adeiladwr.

Mae gan y plant i gyd ddealltwriaeth dda o'r cysyniad o amser yng nghyd-destun digwyddiadau dyddiol, megis cyfnod eu byrbrydau ac amser mynd adref.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.5 Datblygiad corfforol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad corfforol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn llwyddo i drin offer a gwrthrychau bach gyda rheolaeth gynyddol. Dônt i fedru trafod blociau adeiladu, brwsys paent o wahanol faint, glud a sisyrnau yn dda. Mae eu cytgord llaw llygad yn datblygu'n dda wrth gyflawni tasgau edafu.

Mae'r plant i gyd yn symud yn hyderus a diogel gyda rheolaeth a chydsymud cynyddol wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Gweithia llawer ohonynt yn egniol iawn. Dangosant gydbwysedd da wrth symud berfa lawn o gwmpas eu hardal chwarae.

Caiff medrau echddygol bras plant eu datblygu ymhellach yn y lle chwarae antur ac wrth iddynt symud a llywio amrywiaeth o deganau mawr.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.6 Datblygiad creadigol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad creadigol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r plant i gyd yn arddangos hoffter mawr o berfformio gydag offerynnau cerdd o'u dewis. Mae ganddynt gasgliad cynyddol o hwiangerddi a chaneuon Cymraeg.

Caiff llawer o'r plant foddhad mawr wrth chwarae gwahanol rolau yn y cornel gartref ac wrth wisgo i fyny. Defnyddia rhai eu dychymyg yn dda gan gyfathrebu gydag argyhoeddiad.

Mae'r plant i gyd yn defnyddio ystod dda o ddefnyddiau a chyfryngau i gyfleu eu syniadau yn effeithiol. Maent yn gyfarwydd a chynhyrchu gwaith tri yn ogystal â dau ddimensiwn. Datblygant eu medrau yn dda wrth iddynt gyfrannu tuag at furlun yn seiliedig ar y thema gyfredol – Glan y Môr. Medrant wneud dewisiadau addas am liwiau ac fe'u defnyddiant yn effeithiol i greu eu paentiadau. Mae rhai o'r plant yn barod iawn i drafod eu gwaith, er enghraifft, eu gweithiau a gwblhawyd trwy chwistrellu paent ar bapur.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae'r nodweddion da i ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae'r plant yn cael eu hannog i gydweithio'n dda gyda'i gilydd. Cânt eu canmol am ymddygiad da ac fe'u dysgir i rannu ac aros tro pan fyddant am gyfrannu tuag at drafodaeth, neu ymuno â gweithgareddau poblogaidd.

Caiff yr holl blant eu trin gyda gofal a pharch. Mae amser byrbrydau yn ddigwyddiadau dymunol iawn sydd yn rhoi cyfleoedd da i unigolion sgwrsio'n dawel gyda'i gilydd.

Caiff plant eu cyflwyno i draddodiadau a diwylliant Cymru trwy amrywiaeth o ganeuon, cerddoriaeth, storïau a dathliadau.

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau cyfleoedd priodol i blant ddysgu am arferion sydd yn gysylltiedig â phobloedd sydd yn byw mewn gwledydd eraill.

Diffygion
Prin iawn yw'r sylw a roddir i ddatblygiad ysbrydol plant.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r cynllunio ar gyfer dysgu yn briodol ac wedi ei seilio ar ofynion y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru.* Mae'n sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd mewn perthynas ag amcanion y Cyfnod Sylfaen.

Caiff y gwaith ei drefnu o gwmpas cyfres o themâu byrion fel *, Pobl sy'n helpu, Trychfilod* a *Glan y Môr*, a thrwyddynt fe hyrwyddir yn effeithiol gyfleoedd cyfartal i bawb gan dalu sylw i gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae'r cynllunio yn cynnig dilyniant priodol mewn dysgu. Ceir pwyslais da ar sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu dewis gan blant a gweithgareddau gaiff eu harwain gan y staff.

Ar y cyfan, caiff gweithgareddau eu harfarnu'n ddigon effeithiol er hysbysu'r camau nesaf mewn dysgu'r plant

Diffygion
Nid oes diffygion o bwys.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae'r nodweddion da i ansawdd yr addysgu yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Drwodd a thrwodd, mae'r addysgu yn cyfrannu'n dda at gynnydd, cyflawniad a lles plant ac mae'r staff yn gyson yn eu trafod ohonynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn gyfforddus gyda'r egwyddorion sydd wrth gefn y *Fframwaith Ddysgu ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru.*

Defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysgu ac fe gaiff y gweithgareddau unigol a grŵp eu rheoli'n effeithiol, gyda staff yn ymyrryd yn bwrpasol i herio syniadau plant a datblygu eu sgiliau dysgu.

Darperir cyfleoedd da i blant ddilyn gweithgareddau o'u dewis eu hunain, yn ogystal â'r rhai hynny gaiff eu llywio gan staff. Gwneir defnydd da o adnoddau ac fe eir allan â phlant yn rheolaidd ar gyfer eu dysgu.

Caiff cyfraniad athrawes gyswllt Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Dinbych ei werthfawrogi ac fe weithredir ar y cyngor a roddir.

Diffygion
Nid yw'r addysgu o hyd yn sicrhau datblygiad digonol o fedrau llafar Cymraeg plant.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Mae ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adrodd i'w rhieni a gofalwyr yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn llwyddo'n dda i bortreadu darlun digon clir o gyraeddiadau plant yn ystod eu cyfnod yno, yn ogystal â gwneud cyfraniad pwysig tuag at gynllunio ar gyfer dysgu.

Mae'r staff yn gwneud asesiadau arsylwadol defnyddiol ac arfarnol o blant sydd yn mynd i'r afael â phob un o'r meysydd dysgu dros gyfnod o amser. Caiff yr asesiadau yma eu trosglwyddo i lyfrynnau - *Chwarae i Ddysgu, Dysgu Chwarae,* sydd ar gyfer pob plentyn. Caiff tystiolaeth ffotograffig ei ychwanegu atynt hefyd o bryd i'w gilydd.

Caiff rhieni wahoddiad ar ddiwedd y flwyddyn i barti sydd yn dathlu'r hyn mae plant wedi ei gyflawni ac fe rydd hyn gyfle da iddynt drafod gwaith eu plant ac i archwilio cofnodion.

Diffygion
Ar hyn o bryd, nid yw'r lleoliad yn darparu adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r pecynnau gwybodaeth a ddarperir ar gyfer rhieni newydd yn sicrhau eu bod yn derbyn ystod ddefnyddiol o wybodaeth cyn i'w plant gychwyn yn y lleoliad. Cânt gyfleoedd hefyd y fynychu sesiwn yng nghwmni eu plant.

Mae'r staff yn hawdd mynd atynt ac mae yna gyfleoedd da i rieni a gofalwyr drafod materion yn ymwneud â'u plant wrth gyrraedd ac ymadael yn ddyddiol. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith y lleoliad a'i gyfraniad at ddatblygiad plant ym mron pob un o'r holiaduron cyn-arolygiad a ddychwelwyd i'r arolygydd.

Derbynia rhieni gylchlythyron am wahanol ddigwyddiadau ac fe arddangosir gwybodaeth ychwanegol mewn mannau cyfleus i bawb ei weld.

Cefnoga rhieni waith y lleoliad yn dda ac mae eu hymdrechion hwythau ac eraill mewn gweithgareddau i godi arian yn gwneud cyfraniad allweddol tuag y costau o'i redeg.

Mae'r ymweliad diweddar i swyddfa bost y pentref, ynghyd â chroesawu milfeddyg i'r lleoliad wedi cyfrannu'n dda tuag at gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Diffygion
Mae lle i adeiladu ymhellach ar gysylltiadau'r lleoliad gyda'i gymuned leol fel sydd wedi ei nodi yn y cynlluniau ar gyfer datblygiad.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae'r nodweddion da i gyfraniad y lleoliad tuag at les plant yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau addas sydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at hyrwyddo lles plant. Mae gan yr holl staff ofal da dros blant ac maent yn ymateb yn gyflym i unrhyw sefyllfa neu ddigwyddiad sydd â'r potensial i amharu ar les unrhyw un.

Cedwir llyfr damweiniau priodol ac mae trefniadau cadarn iawn ar gyfer derbyn a rhyddhau plant i'w rhieni neu ofalwyr ar ddechrau a therfyn y sesiynau.

Ceir polisïau cynhwysfawr mewn lle ar gyfer amddiffyn plant a gwrthfwlio.

Cynhelir asesiadau risg yn ddyddiol ar rai agweddau o'r ddarpariaeth, er enghraifft, yr ardaloedd chwarae tu allan.

Mae trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer hybu iechyd plant ac fe gânt fwydydd iach yn ystod eu byrbrydau.

Diffygion
Nid oes un o'r aelodau staff eto wedi derbyn hyfforddiant ar y gweithdrefnau lleol a chenedlaethol yn ymwneud ag amddiffyn plant.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r arweinydd yn llwyddo i gydlynu'n effeithiol ymdrechion pawb perthnasol. Ceir cydweithrediad da rhwng staff y lleoliad a'r Pwyllgor Rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd.

Cefnogir cyrsiau hyfforddiant yn dda ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar waith y lleoliad, er enghraifft, yr ymdrechion i wella'r adnoddau ar gyfer dysgu y tu allan. Ceir cydweithio da a chyngor gwerthfawr gan athrawes gyswllt Partneriaeth Sir Ddinbych

a hefyd swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin sydd wrthi yn cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli i lunio cynllun busnes tair blynedd.

Mae'r rheolaeth a'r defnydd o adnoddau yn dda.

Mae rhaglen ar gyfer datblygu'r lleoliad mewn lle ac wedi ei harwain gan brosesau hunan-arfarnu, sydd er yn ei brifiant, yn effeithiol, er enghraifft, nodwyd ynddo yr angen i ddatblygu cysylltiadau cymunedol. Caiff y rhaglen ei hadolygu bob hanner tymor.

Diffygion
Nid oes diffygion o bwys.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer arolygu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Dyma'r arolygiad cyntaf o'r lleoliad gan Estyn.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1: Ddatblygu ymhellach fedrau llafar Cymraeg plant.

A2: Roi sylw priodol i ddatblygiad ysbrydol plant.

A3: Sicrhau cyn gynted â phosib hyfforddiant i'r staff ar weithdrefnau amddiffyn plant.

A4: Ddatblygu'r cysylltiadau gyda'r gymuned leol.

O.N. Mae A4 uchod eisoes wedi eu cydnabod yn nogfennaeth y lleoliad fel meysydd i'w datblygu.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.